| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ebrill 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion)/ Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth: Ardal y Gogledd** |
| **Teitl:** | **Un Pwynt Mynediad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gyfredol am Un Pwynt Mynediad (SPoA) yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd o weithredu Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ac iechyd cymunedol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth o'r gwerthusiad rhanbarthol diweddar o'r *Rhaglen Gweddnewid Mynediad i Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y gymuned ar draws Gogledd Cymru - Un Pwynt Mynediad (SPoA)* sydd i'w weld yn atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad, yn rhoi sylwadau ac yn parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad SPoA fel ffordd o hyrwyddo annibyniaeth dinasyddion a bodloni'r dyletswydd statudol i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a

3.2 Bod yr Aelodau yn manteisio ar y cyfle i ymweld â'r Gwasanaeth SPoA i weld sut mae'r model darparu gwasanaeth yn gweithredu.

## 4. Un Pwynt Mynediad yn Sir Ddinbych

4.1 I drigolion Sir Ddinbych, mae'r SPoA, sydd wedi bod yn weithredol ers mis Mehefin 2014 yn darparu:

- **Gwybodaeth** am wasanaethau cyffredinol a chyfeirio, gan alluogi pobl i aros y tu allan i'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol lle bo'n bosibl. Mae hyn yn yn yr iaith sydd fwyaf addas i'w cefndir ethnig a diwylliannol.
- **Cyngor** gan weithredwyr SPoA sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n wybodus.
- **Cymorth** a roddir i helpu pobl ddefnyddio gwasanaethau fel teleofal drwy brosesau hunanasesu neu drwy un ymweliad i ddarparu offer ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw.

- Ar gyfer yr unigolion hynny sydd angen gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol tymor byr, **cydlynu gwasanaethau** sy'n cefnogi annibyniaeth e.e. gofal canolraddol, lle bo gweithwyr proffesiynol unigol yn ffurfio tîm o amgylch y person yn seiliedig ar gynllun gofal a chefnogaeth integredig.
- **Trosglwyddo di-dor** i mewn i system Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ffurfiol pan fo angen.

4.2 Ar gyfer staff / sefydliadau, mae’r SPoA:

- Yn un pwynt cyfeirio ar gyfer gwasanaethau cymunedol, yn rhannu gwybodaeth am unigolion, lle bo angen ac yn briodol. Bydd yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r fframwaith asesu integredig yn Sir Ddinbych ac yn enwedig y cynllun "Beth sy'n Bwysig?" newydd. Yn sgwrs sy'n disodli'r hen 'asesiad o angen'.
- Yn gynyddol yn gallu darparu data ynghylch lle ceir pwysau, rhwystrau a bylchau mewn gwasanaethau a llwybrau ar gyfer gwella gwasanaethau neu at ddibenion comisiynu.
- Yn darparu un dull o sefydliadau partner yn cyflawni eu cyfrifoldebau / dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth am iechyd a lles drwy ddod yn ganolbwynt i wybodaeth ragorol am wasanaethau cymunedol.
- Yn faes ar gyfer datblygu gwasanaethau ac addysgu staff am wasanaethau a chyfrifoldebau newydd e.e. drwy gynnal hyrwyddwyr neu gydlynwyr.

4.3 Dyma'r staff sy’n rhan o SPoA:

- Person proffesiynol clinigol sy'n gwneud penderfyniadau, sydd â gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob sector.
- 9 Gweithredwr SPoA sy'n ateb galwadau ffôn, yn gwneud galwadau ffôn i gasglu rhagor o wybodaeth; yn ymdrin ag ymholiadau wyneb yn wyneb; yn prosesu atgyfeiriadau; ac yn mewnbynnu ac yn adalw data.
- Arweinydd Tîm sy'n rheolwr atebol i'r Gweithredwyr SPoA ac sy'n gyfrifol am wybodaeth o ansawdd da am wasanaethau.
- Cydlynwyr â swyddogaethau tebyg am ystod o wasanaethau ond sydd hefyd â swyddogaeth o gysylltu'r SPoA gyda gwasanaethau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys Cydlynydd 3ydd Sector.

4.4 Mae elfennau TGCh y model yn cynnwys system ffôn bwrpasol gydag ymarferoldeb estynedig i gynnwys recordio, adroddiadau perfformiad ac ati Er ei fod wedi’i leoli mewn adeilad Awdurdod Lleol, mae rhwydwaith Iechyd wedi cael ei sefydlu sy’n darparu mynediad i systemau'r Cyngor ac Iechyd, gan gynnwys cronfa ddata SPoA bwrpasol sy’n gallu casglu data am bwysau, rhwystrau a bylchau yn y gwasanaethau cymunedol / llwybrau, gan gefnogi gwelliannau i wasanaethau a chomisiynu cudd-wybodaeth.

4.5 Mae'r gwasanaeth SPoA ar gael ar hyn o bryd rhwng 8.00am a 6.00pm dydd Llun i ddydd Gwener ac mae’r Gweithredwyr ar gael rhwng 10am a 4pm ar benwythnosau. Mae wedi’i leoli yn Ffordd Brighton, Y Rhyl ond y bwriad bob amser oedd cynnwys lle i'r SPoA yn y gwaith o ail-ddatblygu safle Ysbyty Frenhinol Alexandra.

4.6 Mae staff SPoA hefyd wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad Pwyntiau Siarad ar draws y Sir, ffordd newydd o sicrhau bod dinasyddion yn cael cynnig apwyntiad mewn lleoliad yn eu cymuned leol os oes angen iddynt weld rhywun wyneb yn wyneb, gan gadw oedi i leiafswm. Mae’r Cydlynydd Pwyntiau Siarad wedi’i leoli yn y

Gwasanaeth ac mae Gweithredwyr SPoA neu'r Cydlynwyr yn mynychu sesiynau gyda staff Ardal i gefnogi'r cyhoedd.

4.7 Rhagwelir y bydd SPoA yn darparu un pwynt mynediad i ystod gynyddol o wasanaethau ar draws Sir Ddinbych neu du hwnt. Mae cydweithio agosach eisoes yn digwydd gyda Gwasanaeth Heddlu a Thân Gogledd Cymru er enghraifft cychwyn gwasanaeth 'CRIT' (Tîm Ymyrraeth Risg Cymunedol) mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Brys i gynhyrchu ffordd fwy effeithlon o ymateb i'r rhai sydd wedi syrthio ac sydd angen cymorth (ond yn ddianaf / nad oes angen eu derbyn i'r ysbyty). Gellid, fodd bynnag, cydweithio ymhellach gyda gwasanaethau/ sefydliadau eraill e.e. cysylltu â'r SPoA yng Nghonwy neu gyda gwasanaethau Plant a Theuluoedd Sir Ddinbych. Gallai swyddogaethau newydd, a rhai sy'n cael eu datblygu gynnwys SpoA, gan chwarae rhan fwy arwyddocaol yn y llwybr diogelu a chysylltiadau â datblygiadau Gofal Sylfaenol Gogledd Sir Ddinbych.

4.8 Data Gweithgarwch (2015/16)

- Cysylltwyd gyda'r SpoA 25,230 o weithiau; 15,578 dros y ffôn, 3730 drwy ffacs a 1537 drwy ffurflen fewnol; a 752 drwy hysbysiad ar y we.
- Mae 100% o gysylltiadau dros y ffôn yn cael y cynnig gweithredol Cymraeg. (Mae gennym 4 o siaradwyr Cymraeg rhugl a 4 o ddysgwyr sy'n golygu ein bod yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg 7 diwrnod yr wythnos. Roeddem yn ffodus o gael ein henwebu am wobr Iaith Gymraeg yn gweithio mewn partneriaeth ym mis Gorffennaf 2015 a chawsom ganmoliaeth arbennig.)
- Rhoddodd y Gweithredwyr SPoA wybodaeth (257) cyngor (474) a chymorth (78) yn ystod y cyfnod hwnnw a rhoddodd y tîm SPoA ehangach gyfanswm o 1405 o Wwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). Mae'r gwaith o gasglu data wedi cael ei fireinio yn ystod y flwyddyn, gyda diffiniadau cliriach yn unol â'r Ddeddf.
- Y prif lwybrau cyfeirio yw i Ofal Cymdeithasol (2950); y Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol (1809); Iechyd Meddwl (763) a Therapïau Cymunedol PBC (642)
- Cafwyd 721 o Ffurflenni Asesiad Risg Cwympiadau gan y Cydlynydd Cwympiadau, a llenwyd 243 gan Gofal a Thrwsio; a 215 gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4.9 Gwerthusiad

Comisiynwyd gwerthuswyr allanol i werthuso'r rhaglen SPoA ranbarthol. Dengys y canfyddiadau allweddol oedd bod pob un o'r 6 SPoA wedi esblygu'n wahanol ac ar gyflymder gwahanol, ond ar draws pob un o'r 6 sir roedd cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud tuag at fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gynnig gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) i ddinasyddion sydd ei angen. Ystyriwyd cynnwys staff 3ydd Sector yn Sir Ddinbych fel cyflawniad mawr, gan arwain at fwy o gyfeirio at Wasanaethau 3ydd Sector a hefyd nodi bylchau drwy well dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar ddinasyddion. Pwsyleiswyd pwysigrwydd y gronfa ddata DEWIS, adnodd cenedlaethol newydd a ddatblygwyd yn Sir Ddinbych â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC), fel adnodd cymunedol dro ar ôl tro. Roedd y gwerthuswyr hefyd wedi nodi effaith newid strwythurol mawr yn PBC a bod hynny wedi llesteirio cynnydd ond fe wnaethont hefyd nodi fod pethau'n newid a bod y Bwrdd Iechyd yn ailymgysylltu â fframwaith SPoA yn strategol drwy ei strwythur ardal newydd a bod posibilrwydd bellach i botensial llawn y rhaglen gael ei chyflawni er mwyn integreiddio arferion iechyd a gofal cymdeithasol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae SPoA yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol bod pobl diamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosib drwy ddatblygu dinasyddion mwy gwybodus a hunan-ofalgar a moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy leihau biwrocratiaeth yn Sir Ddinbych.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer SPoA yw tua £660,000. Mae cyfran fawr o hyn hyd yma wedi cael ei ariannu gan Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) a rhagwelir y bydd y gyllideb gyfan yn cael ei hariannu gan y gronfa hon yn y dyfodol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad oes unrhyw newid i'r polisi na darpariaeth gwasanaethau o ganlyniad iddo.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Arweiniodd Cyngor Gwynedd ar y gwaith o ymgysylltu â dinasyddion ar gyfer y rhanbarth, gan gasglu barn a theimladau bron i 150 o ddinasyddion o bob cwr o Wynedd a'u rhannu er mwyn dylanwadu ar ddatblygiadau ar draws y rhanbarth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r SPoA yn elfen allweddol o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae costau'r gwasanaeth yn cael eu diwallu'n bennaf drwy gefnogaeth grant gyda chyfraniadau gan gynghorau a'r GIG ac mae'r rhain yn ymrwymiad cost presennol. Mae'n bosib y bydd y gost lawn yn cael ei thalu gan gymorth grant yn y dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bu'n anodd cael cytundeb ar gyfer cyllid y dyfodol ac os, fel y rhagwelir, y bydd yn cael ei ariannu gan y Gronfa Gofal Canolraddol yn rheolaidd, mae risg y gallai hyn gael ei dynnu'n ôl neu ei ail-gyfeirio i feysydd eraill. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflogi bron pob un o'r staff, felly mae angen i hyn gael ei liniaru i ryw raddau gyda chytundeb partneriaeth mwy ffurfiol.

10.2 Mae'r gwahaniaethau rhwng SPoA ar draws Gogledd Cymru yn achosi dryswch yn arbennig ar gyfer staff PBC. Er bod y Rhaglen Ranbarthol wedi dod i ben, bydd peth gwaith anffurfiol yn parhau i sicrhau bod pob ardal yn gweithio tuag at yr egwyddorion cyffredin ac yn anelu at gyflawni'r canlyniadau a rennir.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor ac Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaeth:  Ardal y Gogledd                    Ffôn:  01824 706501